Llais Y Derwent

Haf 2016 Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr 25c / rhad ac am ddim ar faes y Brifwyl

Cyrsiau a Gwyliau Haf

Er gwaetha'r tywydd oer a gwlyb sy'n bell o fod yn wanwynol, nawr yw'r amser i ddechrau meddwl am gyrsiau haf a chyrsiau preswyl o bob math sy'n cynnig y cyfle i wella'ch Cymraeg. Mae canolfannau gwahanol megis *Nant Gwrtheyrn* ger Pwllheli, *Popeth Cymraeg* yn Ninbych, a'r chwech o ganolfannau *Cymraeg i oedolion* ar draws Cymru yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau addas ar gyfer pob lefel boed dechreuwyr pur new Cymry Cymraeg sy eisiau caboli ar eu sgiliau ysgrifenedig.

Mae hi'n bosib mynd ar gwrs undydd, neu wythnos neu hyd yn oed am fis. Os yr ydych chi eisiau gwybod mwy ynglŷn â chyrsiau ar draws Cymru cysylltwch â 02920874710 neu e-bostio info@learnwelsh.co.uk

Ym mis Chwefror eleni mi es i ar gwrs penwythnos i ddysgwyr a oedd yn cael ei gynnal gan y ganolfan Ysgrifennu genedlaethol (Tŷ Newydd, Llanystumdwy ger Criccieth). Roedd wyth ohonom ar y cwrs dan diwtoriaid dawnus a chyfeillgar Aled Lewis Evans a Mared Lewis. Roedd y cwrs yn cynnig y cyfle i edrych ar dechnegau ysgrifennu ac i gynhyrchu rhai darnau o ryddiaith a cherddi. Roedd y cwrs yn gynnwys llety a bwyd, mewn gwirionedd roedd hi'n eithaf moethus efo cogydd y canolfan yn darparu prydiau arbennig. Roedden ni'n cael byw bywyd o fath cymunedol am y penwythnos yn rhannu bwrdd brecwast, cinio a swper gyda'n gilydd. Roedd y bobl ar y cwrs wedi dod o bob cwr o Gymru a thu hwnt ac yr oedd hi'n hynod o ddiddorol clywed eu hanes i gyd.

Mi fysai hi'n braf cael clywed mwy o brofiadau dysgwyr o Loegr sy wedi mynychu cyrsiau Cymraeg yng Nghymru. Rowch wybod i ni felly os yr ydych chin wedi bod ar gwrs yng Nghymru, sut oedd safon y gwersi, pa mor dda oedd y llety ac ati.

Mae cyfleoedd arall dros yr haf i ddefnyddio a gwella eich Cymraeg trwy fynd i wylia gwahanol, boed hynny'r Sesiwn Fawr Dolgellau, neu un o'r Eisteddfodau bach, neu hyd yn oed treulio wythnos yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r brifwyl yn cynnig llwyth o ddigwyddiadau gwahanol, cyngherddau, darlithoedd, cyfarfodydd, lansiadau llyfrau, cystadlaethau i gyd trwy'r Gymraeg a'r cyfle hefyd i siopau ymhlith y cannoedd o stondinau. Os dych chi heb fynd i'r Eisteddfod o'r blaen mae hi'n bwysig galw i mewn i Faes D, y pafiliwn ar gyfer dysgwyr. Gewch chi groeso mawr yno, gwybodaeth am gyrsiau, sesiynau ar gyfer dysgwyr, cystadlaethau di-ri gan gynnwys cwrdd â'r rhai sy'n ceisio am 'Ddysgwyr y Flwyddyn' a phanad wrth gwrs. Ewch amdani!

Jonathan Simcock

Cymdeithas Cymry Nottingham

Cyfarfod Bore Coffi

'Popeth yn Gymraeg' Misol

i Gymry Cymraeg

Am fanylion cysylltwch a

Gwynne Davies ar

0115 925 9613

O Bontrhydfendigaid i Everest

Ar ddechrau mis Ebrill eleni, mi dreuliais i wythnos ddymunol iawn yng Ngheredigion. Mi arhosais i mewn tŷ yn y pentref bach Ystrad Meurig. Mi gafodd y tŷ ei gysylltu â'r hen reilffordd, ond mae honno wedi hen ddiflannu ac erbyn hyn mae'n bosib cerdded neu'n reid beiciau ar hyd beth oedd y rheilffordd. Rhaid i mi gyfadde', do'n i ddim yn rhy gyfarwydd efo'r ardal, ond ar ôl cerdded yn y bryniau yno, dw i'n teimlo fel taswn i'n ei nabod yn well.

Wrth reswm, mi feddyliais i am ysgrifennu am fy ngwyliau, ond mi feddyliais eto. Beth am ysgrifennu rhywbeth am berson sy'n cael ei gysylltu â'r ardal? Un person a oedd o ddiddordeb ydy Caradog Jones. Mae o'n enwog gan mai fo oedd y Cymro cyntaf i gyrraedd copa Everest. Llai na 50 o bobl o'r DU sy wedi cyflawni'r her hon. Mi gafodd Caradog ei eni a'i fagu ym Mhontrhydfendigaid ac yn ogystal ag Eric Jones, mynyddwr enwog arall o Gymru, mae o'n wyneb cyfarwydd ar S4C ac mae o wedi siarad ar Radio Cymru droeon hefyd. Mi gyrhaeddodd o gopa Everest ar y 23ain o fis Mai 1995. Roedd o'n 33 mlwydd oed. Roedd Edmwnd Hillary, y person cyntaf i gyrraedd y copa, yn 33 mlwydd oed hefyd pan gyflawnodd o'r un her. Roedd 724 o ddringwyr wedi cyrraedd y copa cyn iddo fo ei gyrraedd.

Rhan o dim 'Everest' oedd Caradog a heblaw tri dringwr arall o'r DU, mi ddaeth aelodau eraill y tîm o Ffrainc, Brasil, Kazakstan, Gwlad Pwyl a Rwsia. Ryszard Pawlowski o Wlad Pwyl oedd aelod y tîm i gyrraedd y copa ar 12 mis Mai. Mi gymerodd y tîm y 'llwybr gogleddol' er mwyn cyrraedd copa Everest ac mi brofon nhw dywydd gwael. Mi gafodd eu cyflenwadau o fwyd ac ocsigen eu disbyddu ar ôl treulio tair noson yn y gwersyll uchaf. Er hynny, trwy wrando ar y radio, mi ddysgon nhw am boteli ocsigen a oedd wedi cael eu gadael tua 150 o fetrau uwchlaw eu pennau. Hefyd mi ddaethon nhw o hyd i fwyd. Mi ddaeth y sefyllfa'n rhyfedd pan gwrddon nhw ag Americanwr oedd ar goll ac oedd wedi eu clywed ar y radio. Roedd o eisiau ymuno a Caradog a'i dim fel gyrron nhw tuag at y copa, ond roedd o'n wan iawn ac roedd rhaid i Caradog ei fygwth er mwyn ei atal rhag peryglu'r holl weithred. Fel y digwyddai, mi gyrhaeddodd 60 o ddringwyr eraill y copa yn yr un mis (mis Mai 1995) ac erbyn diwedd y mis hwnnw, roedd 75 o bobl wedi cyrraedd y copa'n llwyddiannus.

Mi gafodd cyflawniad Caradog ei wneud yn ffilm teledu ac mi gyfrannodd Cymro Eric Jones waith camera. Mae Eric Jones wedi dringo Everest ddwywaith, ond dydy o erioed wedi cyrraedd y copa. Y trydydd aelod o ddim lle cyrhaeddodd dau ddyn y copa heb ocsigen oedd Eric.

Mae Caradog wedi dringo nifer o fynyddoedd anferth Pakistan gan gynnwys Ultar II a Hunza Peak. Yn 2005 efo tri dringwr arall, mi wnaeth Caradog drawstaith o South Georgia.

Mae o'n gefnogwr brwd o fudiadau dringo a cherdded ac mae o'n gyn-lywydd 'The British Mountaineering Club'. Mi ddisgrifiodd Dafydd Morgan, ysgrifennydd 'Clwb Crwydro Caron' (clwb cerdded Tregaron) Caradog fel 'dyn mwyn a diffuant' a 'bod hi'n anodd deall sut gallai dyn mor hynaws fod wedi cyrraedd copa mynydd uchaf y byd'.

Erbyn hyn mae Caradog yn byw yn Frodsham, swydd Caer efo'i wraig a'i ferch ac mae'n gweithio fel ymgynghorwr pysgodfeydd.

Martin Coleman

Y Cymry Cymraeg

Ni yw'r rhai sy'n barhaol—er ein trai,
Er ein tranc beunyddiol,
Y rhai sydd wastad ar ol;
Ni yw'r gweddill tragwyddol.

Alan Llwyd , Oblegid fy mhlant
Caernarfon 1986



Materion Cymreig, U3A Peterborough
Safbwynt aelodau newydd

Symudom ni i Warmington, lle mae cartref ein merch a'i theulu, yng Ngorffennaf 2015 oherwydd bod iechyd Alun ddim yn 100%.

Wedi dod o gefndir Cymreigaidd, a ble roedd Alun wedi bob yn aelod côr Meibion Ardudwy am 25 o flynyddoedd, teimlais fod angen cysylltiad â phobol Cymraeg. Ar ôl ymchwil ar y rhyngrwyd des ar draws U3A Peterborough, a 'Matters Welsh'….ac yna des ar draws Meirion Griffiths… ac mae'r gweddill yn hanes!

Rydym yn cael croeso cynnes dros ben gan bawb yn y cyfarfodydd misol, a hefyd gan y criw Cymraeg pob p'nawn Gwener yn Thorpe Hall.

Ar ôl bod yng nghyfarfodydd Thorpe Hall ddaru mi sylweddoli faint o eiriau Cymraeg rwyf yn eu cofio.

Iaith glin Mam oedd Saesneg, ac wedi bod yn byw a gweithio yn Birmingham am dros 30 o flynyddoedd, teimlwn yn fwy cartrefol yn defnyddio'r iaith Saesneg!

Fodd bynnag… ar Fawrth 1af, Dydd Gŵyl Dewi Sant, ymunom gyda nifer o'r aelodau yn "The Admiral Wells" yn Holme am ginio blasus efo agwedd Cymraeg. Ar ôl ymwledda, cawsom blatiau o "Fara Brith" da iawn gan y staff. A hyn i gyd efo CD "Gwlad y Delyn" yn chwarae yn ddistaw yn y cefndir.

Pechod am canlyniad y "Six Nations" yn Twickenham dydd Sadwrn.

Rydym ein dau yn edrych ymlaen at weddill y tymor!

Maggie ac Alun Evans

Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby
Rhaglen 2016 – 2017

Tŷ Cwrdd Y Crynwyr, Derby
9.30 -12.30

Gweithdy Cymraeg
Sadwrn 11-6-16

Gwyliau Haf

Gweithdy Cymraeg
Sadwrn 17-9-16

Gweithdy Cymraeg
Sadwrn 8-10-16

Ysgol Undydd Cymraeg Derby
9.30 - 3.30 Sadwrn 29-10-16

Gweithdy Cymraeg
Sadwrn19-11-16

Gweithdy Cymraeg
Sadwrn 10-12-16

Dyddiadau 2017 i'w cyhoeddi

www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com

Y Llun Deniadol

Ym 1980 treuliais dri mis yn y Gaeaf fel Athro Gwadd yn adran sifil ym Mhrifysgol Delfft yn yr iseldiroedd. Cefais gyfle i fynd i fyny i Amsterdam nifer o weithiau yn yr un cyfnod. Un o'r pleserau mawr oedd ymweld â'r Rijksmuseum yno i syllu ar ddarlunia enwog Rembrandt fel y 'Nightwatch', ond o'r holl luniau yno'r un gymerodd fy mhleser mwyaf oedd gan un o fyfyrwyr y gŵr enwog sef Nicholas Maes. Yr oedd rhaid i mi gael copi ohonon, ac mae wedi bod yn hongion ar wal y lolfa byth oddi ar hynny.

Mae'r darlun diddorol yn suddo allan o gefndir di-patrwm du tywyll fel swper ar ddiwedd dydd heb olau o'r ffenestr. Mae'na stori yn yr arlwy yma am ddau gymeriad y wraig yn cyflwyno pader cyn bwyta ac yn deisyf bendith a'i dwylaw ynghyd, a'i llygaid ynghau, ac yn y cornel isaf ac agosaf y gath yn ymestyn ei phawen a'i gwined yn ymgrafu'r lliain er mwyn cael gafael ar y pysgodyn cyn i'r wraig ddweud ei Amen!

Enw'r darlun yw Hen wraig yn Gweddïo, neu Y Weddi Ddiderfyn, mae'n siŵr dymuna'r gath i'r weddi barhau am ychydig ragor! Mae'r dillad gwyn a'r coch, mewn cyferbyniad i'r du sy'n ymdoddi'r i'r cefndir tywyll, a'r lliain bwrdd gwyn yn dangos digonedd y bwyd yn eglur. Ffiol o gawl neu uwd, torth o fara, pysgodyn pinc ar blât glas Delfft, torth o gaws Edam a dwy gacen a bowlen wen o fenyn. Mae'r siwg laeth Delfft yn gain, ond nid oes cwpan i'w weld. Paham mae'r gyllell ddur a'i chnawd asgwrn ar ben ei hun ac ochr draw i'r ford i'r hen wraig? Does dim ei hangen ar y gath!

Mae'r achleun sy'n cuddio'r wal yn cuddio'r lleithder sy'n siŵr o ddringo'r wal. Mae allweddai'r drysau wedi'i chrogi'n gyfleus rhag ofn i rywrai ddod heibio. Mae'r amseriad cloch yn cadw amser a'r gannwyll dwndis (1) yn cadw tudalennau'r Beibl ar agor.

Ganwyd Nicholas Maes yn Dordrecht yn 1634, ond dinas Amsterdam gerllaw oedd Mecca y rhai a geisiai ddatblygu fel artistiaid. Tua 1648 ymfudodd Maes i fod yn ddisgybl i Rembrandt am rhyw dair blynedd, cyn dychwelyd i Dordrecht. Mae'r llun hwn yn arbennig yn ei fanylder, Mae'n gweu stori arbennig hefyd, ac mi fyddaf yn cael boddhad mawr o'i weld ar wal fy lolfa dros y blynyddoedd.

Diolch mae copi yw yn unig ac nid oes angen ei inswro! Mae hynny'n rhoi pleser hefyd.

Gwynne Davies

(1) twndis - hen air am funnel

Say Something In Welsh

Become a Welsh speaker - join the world's largest class!

FIND OUT WHY OVER 15,000 PEOPLE USE OUR AWARD-WINNING COURSE

You don't need to read or write or do any revision - you just start speaking normally and naturally from the very beginning. But we don't expect you to take our word for it!

Listen to the first lesson right here, right now - either the northern or the southern version - and if you like it, you can access another 25 half-hour lessons for free

go to website

www.saysomethinginwelsh.com

Atgofion Pasg

Yr ydw i'n cofio, flynyddoedd yn ôl, un prynhawn cynnes cyn y Pasg, pan o'n i'n aros am ychydig ddyddiau yng Nghaernarfon, cerdded ar draws Cei Llechi i gyfeiriad afon Seiont .

Ar y chwith mae hen adeilad yr harbwr meistr yn sefyll. Mae dyddiad 1840 ar dalcen blaen y lle. Mae carreg lwydwyn esmwyth yr adeilad yn edrych dros y maes parcio ar sawl erw o geir a nifer go dda o fysiau twristaidd y dyddiau hyn. Lle gynt bu llwythi o lech yn aros i fynd mewn llong hwylio i bedwar ban byd. Bellach mae pobl o bedwar ban byd yn crwydro ac aros eu tro i ymweld â'r castell hynafol .

Mae adeilad tebyg iawn i swyddfa'r harbwrfeister ar ochr draw'r môr Iwerddon, wrth borthladd Dun Laoghaire, ond mae'na wahaniaeth mawr. Mae wyneb yr adeilad yn Iwerddon wedi'i greithio gan dyllau a marciau bwledi ac ergydion peli magnel, y rheiny yn dyddio o adeg gwrthryfel Pasg 1916 .

Eleni siŵr o fod mi fydd lawer o sylw yn Iwerddon a thu hwnt i ganmlwyddiant y digwyddiad hanesyddol hwn, ond mae adleision yr hanes yma wedi bod yn ymledu yn gyson ac yn rymus dros y blynyddoedd i darfu ar fywydau pobl di-rif .

Wn i ddim pa flwyddyn oedd hi, ond dw i yn cofio clywed stori deuluol bod un o filwyr De Valera wedi ffoi am ei fywyd i loches a llety yn sir Caerhirfryn yn Nhŷ fy hen nain. Roedd teulu fy nhad ar ochr ei fam, fel miloedd o Wyddelod, wedi dod draw i Loegr ar adeg y newyn mawr. Felly dyna oedd yr hanesion, hen nain Gannon yn cuddio aelodau IRA De Valera rhag yr awdurdodau. Yn sicr cafodd hyn dylanwad ar farn fy Nain, roedd hi wastad yn gefnogol i bobl yr IRA hyd yn oed yn y saithdegau ac wythdegau a'r trafferthion ar eu hanterth. Mae adlais o'r tensiynau hanesyddol wedi cyffordd a fi yn ystod fy nyddiau ysgol. Yr ydw i'n cofio'r ffrae danbaid yng nghymuned glos Catholigion Caer tuag at ddechrau 1971 pan yr oedd adroddiad yn lleol am barti nos Calan yng nghlwb y Catholigion. Asgwrn y cennan oedd y ffaith bod hanner y bobl yn y parti wedi gwrthod sefyll ar gyfer yr anthem genedlaethol Brydeinig, ac yn ein hysgol wedyn cafodd bachgen anffodus, Tomos Concannon os dw i'n cofio yn iawn, y gansen oherwydd safiad tebyg yn ystod cynulliad boreol yr ysgol.

Yr oedd rhaniadau tebyg yn y trefi a dinasoedd. Dw i'n cofio gweld gorymdeithiau'r Urdd Oren ar strydoedd Penbedw yng nghanol y saithdegau. Roedd pob un yn ein hysgol ni'n cefnogi tîm pêl droed Everton, sef y tîm Catholig traddodiadol yn hytrach na thîm Lerpwl. Roedd yr un rhaniad i'w gweld yn Glasgow rhwng y gymuned Gatholig a'r gymuned deyrngarol efo cefnogaeth y ddwy ochr ar y naill law i Celtic ac ar y llall i Rangers, ac unwaith eto ym Manceinion rhwng cefnogwyr Man City a Man U.

I son eto am fy nain, doedd hi ddim yn 'or hoff o'r Cymry, efallai yn ei meddwl hi, roedd y Cymry yn rhan o'r gelynion Protestannaidd, yn amlwg doedd hi ddim yn gwybod am Saunders Lewis a'i ysgrifau am Gymru y canol oesoedd a'r cyswllt ag Ewrop Catholig. Mae hen ddigon o drais a thywallt gwaed wedi bod ers 1916, gobeithio bydd y ganrif nesa yn gweld dulliau mwy heddychol o ddatrys trafferthion.

Jonathan Simcock

Cramp Ysgrifennu

Ces galwad ar y ffôn gan hên gyfaill a medde fe " Gwili, ti ddim wedi ysgrifennu erthygyl i'r papur bro ers sbel fach".

Yn Saesneg, writer's cramp yw'r dywediad am y sefyllfa. Dim hwyl yw'r broblem. Un ateb fel arfer yw ysgrifennu am yr hyn sydd ar dy feddwl. Yn gyntaf gobeithio bo chi wedi cael Pasg yn llawn o fendithion yr Wyl. Dyna fy nymuniad i chi o Northwich, rhwng Manceinion a Chaer.

Mae'n syndod i mi y nifer sy'n methu a syllebu fy enw yn gywir. Mae'r amrywiaeth yn ryfeddol, hyd yn oed gan rai dwi'n i nabod nhw erioed! Dyma rhai o'r enwau… Gwilli, Gwillie, Gwylly, Gwely, Gwelly, Gwilie, Gwylie.

A mwy na'r nifer dros y Nadolig, oedd y cardiau a'r llythyron o gydymdeimlad pan fu farw'r wraig ym mis Mehefin 2010. Nid y fi yw'r unig un sy' wedi colli cymar annwyl oherwydd canser wrth gwrs, a rhaid i mi cydnabod y cefnogaeth cefais yr adeg hynny gan cymdogion ac yn enwedig cyd aelodau'r capel. Fy mhrofiad personol yw gweld a phrofi Cristnogaeth ar ei orau. Mae egwyddorion Cristnogaeth, fel cariad yn hir ymaros, ta beth yw'r anhawsterau, er fod bywyd, yn gyffredinol yn newid yn gyflym. Sawl gwaith i chi wedi clywed pobl yn dweud must keep up with the times, fel ta fe'n rhyw fath o esgus ar eu cydwybod. Pobl sy'n newid, nid Cristnogaeth.

Maddeuwch imi am gofnodi'r hyn dwi'n eu werthfawrogi'n ddirfawr.

Pan soniais wrth y gweinidog mewn sgwrs fach mod i'n cael trafferth gyda'r cyfrifadur. "I'll fix it" . Mae e'n dipyn o Whiz kid! Fe yn cynnig, minnau yn derbyn. Pan oedd e a'i wraig yn mynd i Lerpwl, ma fe'n cynnig lifft i mi, owtin. Cynnig a mi'n ei dderbyn.

Gwr a gwraig o'r capel yn mynd draw i Suffolk i aros gyda pherthnasau, ac yn cynnig lifft er mwyn i mi ymweld a'r ferch a'r teulu, hefyd yn byw yn Suffolk – drws i ddrws. Nhw yn cynnig, a minnau yn derbyn. Taith o dros 220 milltir.

Gwr a gwraig arall o'r capel yn mynd lawr i Sir Benfro, ac yn cynnig lifft i mi i'r Hendygwyn a'r Daf er mwyn ymweld a.m chwaer. Nhw yn cynnig, minnau yn derbyn. Taith o bron 200 milltir.

Byddaf yn meddwl ac yn gweddïo dros y rhai sy'n anabl, yn fethedig, ac yn gaeth i'w cartrefi, a neb yn galw. Cofio darllen sawl blwyddyn yn ôl, am un hen wraig wedi marw yn ei chartre. Roedd hi wedi ysgrifennu bron yn ddyddiol yn ei dyddiadur nobody called again today. Ie, pobl, cymdeithas sy'n newid ac nid egwyddorion Cristnogol.

Hyd yn hyn, mae'n swnio mod i'n beth mae'r Sais yn ei alw'n grumpy old man! Yr hyn sy'n fy mhoeni y dyddiau 'ma yw'r galwadau diderfyn o ganolfanau galwad, call centres, yn India fel arfer, yn ceisio cael gair gyda'r gwraig, a hithau wedi marw yn 2010. Diwrnod cyn fy mhenblwydd yn 90 oed, ces tri galwod o'r fath. Profiad poenus. Ond na fe, rhaid bod yn amyneddgar. Rhaid cyfadde mod i weithiau'n ateb ac yn siarad yn Gymraeg!

Blwyddyn yn ôl cefais alwad a roeddwn yn sicr mai o'r India oedd y galwr. A ma fi'n siarad yn Gymraeg ag e. Cefais sioc i glywed e'n ateb yn Gymraeg. Un o Abertawe 'roedd yn ffonio fi ar ran y cwmni ysweiriant Admiral!

Mae'n syndod y gwybodaeth sydd ar gael ar y wê. Cewch sioc i weld eich enw falle. Teipiwch eich enw, clic, a gadewch y job i Google. Dyna'n union beth wnes cyn y Nadolig… a gweld llun o honof a dynwyd gan Geoff Charles y ffotografydd enwog ym mis Medi 1956.

Ar y wê cewch wybodaeth am Heol y Cyw, Brynna, Penprysg. Rhyfedd o fyd, ynte!

Yn ddiweddar mae lot o ffws a ffwdan yn y wasg am S4C a'r nifer o wylwyr. Sut na nhw'n dod o hyd i'r ffigurau? Y nifer o wylwyr yng Nghymru'n unig? Beth am Lannau'r Mersi, lawr ar hyd y gororau, Henffordd, Briste, Dyfnaint a Chernyw. Synwn i ddim fod na wylwyr yn yr Iwerddon. Dwi'n gwylio S4C bob dydd – dim

trwy'r dydd cofiwch. Well gen i ddarllen.

Pa lyfr i chi'n darllen y dyddiau 'ma? Dw i newydd gorffen Llên Gwerin Blaenau Gwent. Cyfrol diddorol dros ben. Wel fues yn byw na am saith mlynedd, priodi, a ganed y plant yng Nglyn Ebwy.

Ar hyn o bryd dwi'n brwydro trwy Adenydd Glöyn Byw enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen 2010. I mi o'r "sowth" brwydro yw'r gair gan fod cymaint o dafodiaith a dywediadau y gogledd ynddo. Mae e'n dipyn o straen..

Y llyfr nesa fydd O Lwyfan i Lwyfan hunangofiant Peter Hughes Griffiths,

Wel! Na fi wedi dod dros y Writer's cramp! Hwre!

Gwili Lewis
Northwich

Fforestydd

Aeth fy ngwraig Maureen a minnau am dro yn Fforest Sherwood ger Edwinstowe, yng ngogledd swydd Nottingham, yn yr hydref ac ymwelsom â'r Dderwen Fawr (The Major Oak), a mwynhaom grwydro yn hamddenol ar y llwybrau yn y fforest ac edmygu'r hen golfenni. Fel y gwyddus dim ond rhan fechan sydd ar ôl o'r fforest o'i chymharu â'i maint yn yr Oesoedd Canol; es ati yn ddiweddarach i ddarllen tipyn am hanes Fforest Sherwood a hefyd hanes rhai o fforestydd yng Nghymru yn yr O.C. Yng Nghymru un adeg roedd un rhan o bob tair o'r tir yn fforest; roedd rhai o'r fforestydd yn perthyn yn uniongyrchol i'r brenin ac eraill i uchelwyr y wlad, yn enwedig i'r barwniaid Normanaidd wedi'r Normaniaid orchfygu'r wlad ar ôl 1066; roedd rhan helaeth o Eryri yn perthyn i'r brenin a hefyd roedd y rhan fwyaf o Bowys bresennol yn fforest. Diben y fforestydd oedd darparu tir i'r brenin a'r uchelwyr i hela; roedd hela braidd yn obsesiwn i lawer o frenhinoedd yr Oesoedd Canol ac yn un o'r arferion pwysicaf a mwyaf poblogaidd ym mywyd yr uchelwyr ac roedd trefn benodol i helfa a'i gwnâi'n weithgaredd seremonïol ac arwyddocaol. Ceir llu o gyfeiriadau at hela yn y drydedd ganrif ar ddeg yng nghyfreithiau Hywel Dda. Yno enwir dau o swyddogion pwysig yr helfa sef yr hebogydd a'r pencynydd. Nid oedd gan y tenantiaid oedd yn byw yn y fforest hawl i hela ceirw a'r baeddion gwyllt er caniatawyd iddynt hela cwningod a rhyw fân anifeiliaid eraill.

Cofier hefyd pa mor bwysig oedd y fforestydd i'r trigolion; gallent ddefnyddio coed i adeiladu ei anheddau; byddent yn cadw moch a byddai'r moch yn bwyta'r mes yn yr hydref; hefyd roedd mêl a chwyr yn rhan o gyfoeth y fforest; ond roedd y bobl gyffredin a oedd yn byw yn y fforestydd dan bwysau trwm i beidio troseddu yn erbyn deddfau'r fforest ac roeddent yn debyg o gael ei hebrwng o flaen llys y fforest am nifer fawr o droseddau. Mae yna hanes o bobl yn cael eu llygaid wedi eu tynnu allan am droseddu yn erbyn y deddfau; gwellhaodd cyflwr trigolion y fforestydd rhywfaint ar ôl dyfodiad Magna Carta a ddaeth rhyw fesur o reolaeth dros yr uchelwyr; rydym yn tueddi synio mai lle tawel digyffro oedd yr hen fforestydd ond heb amheuaeth roedd 'na awyrgylch fywiog ynddynt er nid oedd Robin Hood a'i fath yn trydanu pob fforest!

Symudwn ymlaen yn awr i ganol y ganrif ddiwethaf. Un o fy hoff feirdd Cymreig yw Gwenallt, sef D Gwenallt Jones (1899 - 1968). Er iddo gael ei eni ym Mhontardawe yn Sir Forgannwg, ardal ddiwydiannol iawn slawer dydd a gweithiau copr ac alcan ac yn y blaen, roedd ei wreiddiau yn ardal wledig Rhydcymerau yn Sir Gaerfyrddin. Yn un o'i gerddi mwyaf adnabyddus "Rhydcymerau", mae yn son am y fforesteiddio helaeth gan Y Comisiwn Fforestydd a ddigwyddodd yn yr ardal hon yn y cyfnod rhwng y ddwy ryfel byd; ac yn y gerdd dengys y bardd yn glir iawn sut i'r diwylliant Cymreig yn yr ardal gael ei ddirywio pan ddiflannodd y ffermydd, ynghyd â'r perchnogion neu'r tenantiaid, i greu'r ffor-

estydd; diflannodd y gymuned gymdeithas glos wledig ac yn sgìl hynny daeth dirywiad yr iaith ac amaethyddiaeth yn yr ardal. Dyma ddwy ran fach o'r gerdd i chwi ddysgwyr Derby; os cewch gyfle darllenwch y gerdd gyflawn; mae hi yn y llyfr "Hoff Gerddi Cymru" (Gwasg Gomer 2000).

Plannwyd egin coed y trydydd rhyfel
Ar dir Esgeir-ceir a meysydd Tir-bach
Ger Rhydcymerau.

Ac erbyn hyn nid oes yno ond coed,
A'u gwreiddiau haerllug yn sugno'r hen bridd:
Coed lle y bu cymdogaeth,
Fforest lle bu ffermydd,
Bratiaith Saeson y De lle bu barddoni a diwinydda,
Cyfarth cadnoid lle bu cri plant ac ŵyn.

Os ydych am ddarllen y gerdd gyflawn a methu cael gafael yn y gyfrol uchod anfonwch e bost i mi ar - "howellprice@btinternet.com" - ac mi ddanfonaf hi ynghyd a chyfieithiad i'r Saesneg a geirfa.

Geirfa; egin coed > saplings; derwen (ll. deri) >oak tree; hebogydd > dyn yn gofalu am yr hebog (hawk); pencynydd > dyn yn gofalu am y cŵn hela; colfen (ll. colfenni) > gair arall am goeden tree; cadnoid > lluosog cadno = fox; mesen (ll mes) > acorns.

Howell Price

Cymdeithas Cymry Nottingham

Annwyl olygydd

Dw i newydd darganfod y papur bro 'Llais y Derwent', ac yn arbennig y rhestr grwpiau ymarfer ar y tudalenn olaf. Gaf i ofyn i chi ychwanegu ein grwp, plis?

Mae'r manylion yw : Grwp Iaith Lerpwl http://liverpool-welsh.co.uk/learn.htm

Cyfarchio o Lerpwl a diolch am eich help.

Mike Farnworth

Pwyso ar Lidiart

Dyma finnau yn pwyso ar lidiart arbennig; roeddwn i eisiau dweud 'llidiart pum bar pren derwen', ond un modern metal gyda llu o barrau yw hwn. Ond, p'run bynnag, yn hollol dderbyniol i bwyso arno ar ddiwrnod braf yr haf.

Roedd Enid wedi bod yn gyrru, yn gyflym fel arfer, o Dŷ Mawr ger Eglwysbach i Waunfawr i ymweld hen ffrind sef Lowri Dunne; bydd rhai ohonnoch yn ei nabod hi, yn siwr iawn, fel aelod Cymdeithas Cymry Nottingham yn frwd iawn dros yr iaith Cymraeg ac yn cynnal Aelwyd popeth yn Gymraeg yn ei thŷ crand bob blwyddyn!

O diar, dyma finnau yn colli pen y llinyn eto. . . Lle o'n i?. . . . O ie! Enid wrth y llyw yn gyrru yn gyflym ar y ffordd i Waunfawr.

A dyna hithau yn stopio yn sydyn wrth ochr y ffordd ac yn gofyn i fi, "Wyt ti'n cofio hen lyfr, sydd wedi dod allan diwedd yr ail ryfel y byd, enw 'I Bought a Mountain', gan Thomas Firbank?"

"Ydw", meddwn i, "Yn iawn". "Wel", medd Enid, "Dyna'r fferm!"

Roedd cannoed o filoedd copiau y llyfr yn cael ei werthu. Thomas Firbank, yn enedigol o Ganada, a heb brofiad ffermio, wedi gwneud llwyddiant o'r gwaith caled ar fferm defaid mynyddig, er gwaethaf stormydd erwin o wynt ac eira a phob math o anffodion eraill. Hefyd mae yna straeon difyr am gerdded a dringo y mynyddoedd; a mae un stori wych yn sôn am ei wraig Esmé, a Firbank ei hun, yn torri record am dringo y pedwar ar ddeg o fynyddoedd Eryri dros tair mil o droedfeddi!

Geirfa.

Colli pen y llinyn to lose the thread of an argument or story.

Wrth y llyw in command, at the helm, at the controls, at the driving wheel.

John Vivian Harris

Rhiwbob!

Maent yn dechrau pipian trwy'r pridd ac o hyn i ddiwedd Mai byddant ar eu gorau, yn flasus ac yn dyner ac heb fod rhaid ei pilio. Mae'n well rhoi pliciad i'r goes wrth eu codi yn hytrach na'u torri gyda chyllell. Bydd hyn yn arbed y gwraidd rhag pydru ac yn annog tyfiant da y tro nesaf.

Teisen Gaws Rhiwbob

200g (½pwys) o gacennau ceirch (mae rhai organig Nairn's yn ddewis da).

75g (3 owns) o gnau ffrengig

125g (5 owns) o fenyn wedi ei doddi

2 llond llwy fwrdd o fêl clir

Y llenwad

300g (¾ pwys) o gaws hufennog

200 (½ pwys) o gaws Roquefort neu ei debyg wedi ei friwsioni

3 ŵy

3 llond llwy fwrdd o fêl clir

2 ffon o rhiwbob

Malu'r cacennau ceirch mewn prosesydd bwyd os yn bosib) gyda'r cnau ffrenig ac yna eu cyfuno gyda'r menyn a'r mêl.

Iro dysgl fflan a gwasgu'r cymysgedd ceirch ar y gwaelod.

Gadael i orffwys am o leiaf awr neu dros nos yn yr oergell.

Curo'r wyau, y cawsiau a'r mêl gyda'i gilydd ac arllwys y cymysgedd ar y gwaelod.

Sleisio'r rhiwbob yn denau a chluro'r sleisis gyda mêl. Disgyn y sleisis rhiwbob i'r hylif caws.

Pobi'r deisen mewn gwres 160°C, Marc3 am rhyw awr a chwarter hyd bydd y cymysgedd ychydig yn sigledig ond yn barod.

Eluned Mai

Wedi'i ailargraffu o bapur bro Y Cysylltydd (Ardal Coventry a Brimingham)

Mai

Os marw yw hon is Conwy

Ni ddyly Mai ddeilio mwy

Y mae cwpled anfarwol Dafydd Namor yn rhagymadrodd gwych i'r mis yma, nid oherwydd bod yna gynifer o ddail ym Mhen Llyn, ond oherwydd cysylltiad Dafydd a'r pen yma. Bob tro yr af heibio i'r graig ym mhenrhyn Aberdaron, daw i linellau Dafydd i wallt Llio i'm cof:

Mewn moled main a melyn

Mae'n un lliw a'r maen yn Llyn

Gwyddom am oed ofnadwy ac anhygoel creigiau Aberdaron a gafodd eu diraddio braidd yn rhigymau Cynan, ond bydd cofio am y canrifoedd a aeth heibio ers amser Dafydd Nanmor yn ddigon i beri pendro. Ond braf hefyd ydi meddwl ei fod o wedi troedio'r glannau hyn a chofio wedyn am y maen melyn tra'n chwilio am gymhariaeth a'r ferch felynwallt.

Cafodd Dafydd fyw mewn cyfnod cyn chwalau'r mynachlogydd gan Harri Tudur, felly y tebyg yw bod yna fynaich yn Enlli dros y dwr iddo pan safai'r bard i syllu ar y creigiau golau, Dydw i ddim yn sicr at ba graig y mae'n cyfeirio yn ei gywydd, oblegid bod yna ddwy o fewn llai na milltir i'w gilydd; y ddwy'n wynebu swnt Enlli. Yn ymyl un o'r llwybrau am Fraich y Pwll y mae un. Mae Pared Llech Ymenyn yn nes i Ben-y-cil i'r de. Yma ryw ddwy fil a hanner o flynyddoedd yn ôl gadawodd pobl Oes y Pres eu celfi, y daethpwy o hyd iddynt rywbryd yn y ganrif hon.

Dyfuniad o Flwyddyn Yn Llyn

RS Thomas

Un Pen Dau Feddylfryd

Gwych i weld "Llais y Derwent" unwaith eto a chyfraniadau'r dysgwyr brwdfrydedd fel Cath Platt yn bapur y fro gwanwyn. Cyngor ymarferol iawn yw cadw dyddiadur. Rhaid i mi wneud yr un peth. Dysgwr ydw'i hefyd sy'n byw yn Hen Golwyn, ond dim llawer o Gymraeg yma. Yr un fath a byw yn Lloegr. 20 mlynedd yn ôl roedd 6 o Gymry Cymraeg yn ein stryd fach ni. Heddiw, dim ond fi sy'n medru'r Gymraeg, a Sais ydw'i. Diddorol darllen sylweddoliadau Martin Coleman hefyd. A ydi o'n teimlo fel dau berson wrth siarad iaith (Cymraeg) arall? Roedd o'n gofyn. Wel, ar ôl cnoi cil ar y pwnc, i mi, na. Ond yn bendant rwy'n teimlo wrth fy modd bod allaf weld y byd trwy lygaid bobl arall. Wrth ddysgu unrhyw iaith rhaid i chi ddysgu hanes, barddoniaeth, llenyddiaeth a hyd yn oed gwleidyddiaeth hollol wahanol i'r diwylliant sydd ar gael yn sefydliadau Saesnig.

Rwy'n teimlo fel gwestai mewn tŷ gyfaill newydd, groesawgar sydd ganddo gymaint i'w gynnig. Rwy'n adnabod un gŵr a gwraig, y ddau'n Gymry Cymraeg, sy'n byth siarad yng Nghymraeg efo'i gilydd ac wedi methu sicrhau'r anrheg o'r hen iaith i'w plant. Oeddwn i'n cofio'r rhyfel a'r perygl o golli'r frwydr. Dychmygwch; os oeddem ni wedi colli, efallai byddai'r Saesneg iaith lleiafrif heddiw a'r Saesneg dim ond iaith hen bobl, fel fi, a phawb arall yn siarad Almaeneg? Rwy'n deall sut mae'r Gymry Cymraeg yn weld y byd.

Ardal o ddiwylliant eithriadol?

Pan rydw'n crwydro'r mynyddoedd rwy'n weld yr harddwch eithriadol o'm gwmpas. Ond wrth werthfawrogi'r wlad o gan, rwy'n synhwyro'r rhywbeth arall sy'n treiddio fel niwl ymysg y mynyddoedd, dolydd, llynnoedd a chlogwynau; yr iaith, y farddoniaeth a'r diwylliant Cymraeg. Os bydd gwyntoedd Lloegr chwythu'r niwl hwn i ffwrdd, bydd Cymru byth yr un wlad.

Yr Hen Gymro, Braveheart

Rhaid boch chi'n dysgu iaith arall cyn gallwch chi ddeall iaith eich hun maen nhw'n dweud. A pa well iaith na Chymraeg, yr iaith gyntefig y wlad hon? Siaradodd yr hen "Braveheart" Cymraeg a thrigodd yn yr Hen Ogledd, Ystrad Clyd, neu Strath Clyde fel maen nhw yn ei alw heddiw. Dydi Mel Gibson dim gwybod hynny, rwy'n siŵr. Wallace gyda llaw ydi llygredd o "Weleis", gair Normanaidd sy'n golygu dieithriad, neu "Welshman". Gwarthus onid oes? Dal ati ddysgwyr Nottingham, mae'n sicr werth ei wneud. Gyda llaw, os ydych chi'n chwilio am lyfr, ceisiwch "Cymru Fydd" gan Islwyn Ffowc Elis wedi'i ysgrifennu 64 mlynedd yn ôl. Rhagwelodd y ddau ddyfodol yn hollol wahanol ynglŷn â'r iaith a Chymru. Byddwch yn mwynhau, rwy'n siŵr.

Monty Slocombe
Bae Colwyn

Menter Iaith Lloegr

Safle ar Facebook i'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg hyd a lled Lloegr.
i gysylltu a Llais Y Derwent
anfon ebost i
menteriaithlloegr@mail.com

Cylch Dysgwyr
Cymraeg Derby

Ydych chi am gymryd rhan mewn Gweithgareddau Cymraeg a Chymreig?

Mae'r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol achlysurol megis teithiau gerdded, nosweithiau cyri / nosweithiau Tafarn

Newyddion o Gymdeithas yr iaith

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi mynegi siom yn dilyn penderfyniad Llywodraeth San Steffan i dorri cyllid i'r iaith Gernyweg yn gyfan gwbl.

Meddai Sioned Haf, Swyddog Rhyngwladol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, sydd â'r cyfrifoldeb o gadw mewn cysylltiad gydag ymgyrchwyr iaith rhyngwladol ar ran y mudiad iaith:

"Mae'r toriad haerllug yma yn symptomatig o agwedd ddinistriol y llywodraeth Brydeinig bresennol tuag at y rheiny sydd fwyaf bregus ymysg ein cymunedau. Dwi'n amau a oes yna unrhyw ddealltwriaeth o ba fath o gefnogaeth sydd ei hangen ar iaith fel y Gernyweg i ddatblygu. Hyd yn hyn mae'r Gernyweg wedi bod yn derbyn £150,000 y flwyddyn o'r Llywodraeth ganolog ers cael ei chydnabod o dan Siartr ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol Ewrop. Mae'r swm hon yn gyfystyr â thua £50 y pen i bob un siaradwr neu ddysgwr y Gernyweg - sy'n swm hynod o bitw yn y lle cyntaf - a nawr mae'n cael ei ddiddymu'n gyfan gwbl."

Defnyddiwyd y grant yma i gefnogi'r iaith mewn sawl ffordd gan gynnwys ariannu gweithgareddau addysgiadol. Mae twf wedi bod yn nefnydd y Gernyweg ers iddi gael statws, lle mae'r iaith i'w weld yn fwy amlwg o fewn y sectorau trafnidiaeth, twristiaeth, busnes a chyhoeddus.

Ychwanegodd Sioned Haf:

"Mae'n amlwg nad yw cyfoeth diwylliannol o bwys i'r Llywodraeth yn San Steffan, ar wahân i hyrwyddo eu syniad nhw o ddiwylliant, sef yr un homogenaidd Brydeinig. Rydym yn galw ar gefnogwyr y Gymraeg i dangos eu cefnogaeth i'r Gernyweg, ac i gyfrannu tuag at ymgyrchoedd bydd ar y gweill dros y misoedd nesaf."

Yr wythnos diwethaf, lansiwyd deiseb brys arlein yn erbyn y toriadau sydd i'w gweld yma: https://petition.parliament.uk/petitions/128474

Parchwch y Gymraeg neu ewch o 'ma

Mae aelodau o Gell Pantycelyn Cymdeithas yr Iaith wedi casglu wrth gangen Starbucks yn Aberystwyth heddiw (dydd Gwener 29/04) gan alw ar y cwmni i barchu'r Gymraeg. Roedd honiad i aelod o staff yn Starbucks ddweud "Speak English or get out" wrth gwsmer yn ddiweddar. Mae'r cwmni bellach yn gwadu iddo ddigwydd ond mae amheuon gan Gymdeithas yr Iaith o hyd.

Dywedodd Manon Elin, cadeirydd grŵp hawliau iaith y Gymdeithas sydd yn aelod o Gell Pantycelyn:

"Mae'n ein taro yn rhyfedd y byddai rhywun, sydd â phroffil uchel yn gyhoeddus, yn trydar am achos o'r fath heb fod rywfaint o wirionedd iddo. Ond maen dal yn wir y dylai'r cwmni, fel pob cwmni arall, sicrhau bod eu holl staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnig gwasanaeth Cymraeg, a'r statws swyddogol sydd gan yr iaith. Mae cyfrifoldeb ar y staff i ddysgu'r Gymraeg i weini cwsmeriaid, nid disgwyl i'r cwsmeriaid droi at y Saesneg.

Gan fod awgrym bod aelod o staff wedi ymyrryd â rhyddid unigolyn i siarad Cymraeg, sy'n anghyfreithlon, rydyn ni wedi gofyn i Gomisiynydd y Gymraeg ymchwilio."

Ychwanegodd Elfed Jones, Cadeirydd Cell Pantycelyn:

"Mae llythyr wedi mynd gan y Gymdeithas yn genedlaethol ynglŷn â'r sefyllfa ond roedden ni'n teimlo fod angen gwneud rhywbeth yn lleol hefyd.

Rydyn ni'n annog pawb i fynd i gaffis lleol. Ond o dderbyn na fydd pawb am wneud hynny mae angen anfon pob aelod o staff Starbucks ar hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, a chynnig gwersi Cymraeg iddynt."

Grwpiau ymarfer Cymraeg yn Lloegr

Basingstoke Welsh Learners

www.cymraegbasingstoke.blogspot.com

Bore Coffi Popeth yn Gymraeg Nottingham

0115 925961

Clwb Cymraeg y Chilterns

http://freespace.virgin.net/d.griffiths/ardal6.htm Clwb Cymraeg Telford

01952 608305

Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

07767260514

Cylch Siarad Llundain

www.londonwelsh.org/learn-welsh/y-cylch-siarad

U3A Congleton

Groups.u3a.congleton@gmail.com

Ware U3A Welsh Class 01920 464740

Milton Keynes U3A welsh@mku3a.org

U3A Maghull & Lydiate 0151 5262530

U3A Newport

U3A Merton Groups@mertonu3a.org.uk

Peterborough U3A 01733 266483

Malvern U3A

Sheffield U3A

SSIW Cyfarfodydd wythnosol

Brighton – Nos Lun, 8:30 y nos, The Black Lion, Patcham, Brighton
Great Malvern – Dydd Iau, 12.30 to 2 y prynhawn, Great Malvern Library Café
Lerpwl – Nos Lun, 7.30 y nos, Canolfan Cymry Lerpwl, Auckland Rd, L18 0HX
Rydychen - Nos Fawrth , 5.30 y nos, Jericho Café (i lawr y grisiau), Walton St

SSIW Cyfarfodydd misol

Caergrawnt - ALMA public house, Russell Place, Cambridge CB2 1HW Gwelir SSIW am fanylion
Chelmsford - Nos Iau 7.30 y nos, Chapter House, Chelmsford Gwelir SSIW am fanylion
Coventry - dwywaith y mis, 10 o'r gloch y bore, 1taf & 3ydd Dydd Iau, uwchben y café, Earlsdon Methodist Church, Coventry, CV5 6NF

Derby – bore Sadwrn, 9.30 to 12.30, The Friends Meeting House, St Helen's St, Derby, gwelir dyddiadau ar safle we DWLC
Dorridge - ail nos Lun bob mis, 7.30 y nos, The Forest Hotel, Dorridge
Exeter – bob yn ail wythnos, Nos Lun, 7.30 y nos, The White Hart, South St, EX1 1EE
Gloucester - Ail nos Fercher bob mis, 7.30 y nos, England's Glory Pub, London Rd, Gloucester **Leeds** – 4ydd dydd Sadwrn bob mis, hanner dydd, Brewery Tap, Leeds

Manceinion – 3ydd Dydd Sadwrn bob mis, 10.30 y bore, Manchester Art Gallery Café, Mosely St, M2 3JL
Milton Keynes - nos Iau olaf y mis, 6.00 to 7.30 y nos, Ye Olde Swan, Newport Rd, Woughton-on-the-Green, MK6 3BS
Milton Keynes – 3ydd dydd Gwener y mis, 10.30 I hanner dydd, Rectory Cottages, Bletchley
Norfolk – Nos Iau 7.30 - 9.15 y nos, King's Head, Norwich St, East Dereham, Norfolk. Gwelir SSIW am fanylion
Oswestry – 3ydd nos Fawrth y mis, 7.00 y nos, The Cross Guns Pub, Pant, Oswestry

Sheffield - 2ail Dydd Sadwrn y mis, 1.00 y prynhawn, Hagglers Café, Queens Rd, S2 4DU

Solihull – 4ydd Sadwrn y mis, 10.00 y bore, Assembly Rooms (Wetherspoons Bar)

Suffolk – gwelir safel we SSIW
Sussex/Hants/Surrey (CACEN group)

1-4pm, Lewes, East Sussex, Gwelir SSIW am fanylion

Winchester - Bob yn ail nos Iau 7.00 y nos, The Cart and Horses, in London Rd, Kings Worthy, Winchester, SO23 7QN



Cysylltwch!

Os dych chi eisiau ysgrifennu erthygl i 'Lais' cysylltwch trwy anfon neges e-bost at menteriaithlloegr@mail.com. Mae hen gopiau Llais y Derwent ar gael ar lein trwy mynd at ein gwefan

http://lloegrambyth.wix.com/llais-y-dderwentydd

www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com